Gŵyl y Castell

14 Medi 2024

Mae'n Aber ŵyl. Mae'n hen bryd!
Dethlwch, a chwifiwch hefyd
Rif y sêr o faneri,
Rhennwch a hyrwyddwch hi,
Dewch o bell i gastell gŵyl
Ar derfynau'r dref annwyl.

Mae 'na ŵyl man na welwyd
Affliw o ddim lliw ond llwyd;
Chwalwn y garsiwn a'r gard,
A dadwneud cadwyn Edward,
Trown gastell y fwyell fain
Law yn llaw'n gastell Owain.

At ŵyl i bawb o'r teulu
Heidio mae talentau lu,
Drwy'r dre, ni chei fargen fwy
Na'r Sadwrn amhrisiadwy;
Am gìg, ni chei gynnig gwell:
Nid yw'n costio'n y castell!

Dere i'r ŵyl, nid ar alwad
Didostur i gyrchu'r gad,
Ond ar alwad curiad cân
Arwyr llafar y llwyfan,
Hedleinyrs mae'u dylanwad
I'w glywed ledled y wlad.

Be well i gastell na gìg?
Gwell yw castell acwstig
Nag un distaw gwrandawgar
Ei gell a'i borth, a gwell bar
O gwrw da nag o'r dur
I dref heb brinder yfwyr!

I'r dre, dere heb darian
Galed hyll na ffaglau tân;
Y gatrawd, gad hi gytre,
Haid rydd sy'n galw'n y dre
Yn Gymraeg yma am ragor,
Am 'fwy, mwy, mwy!' uwchlaw'r môr.

Yn nawns y don nos a dydd,
Clyw dôn caneuon newydd;
Daw i'r unlle'n daranllyd
Y bandiau gorau i gyd;
Glyw di'r gân? Sigla drwy'r gìg.
Mae'n hiaith yma'n anthemig.

I gìg yng Ngheredigion,
Rhwng Teifi, Dyfi a'r don,
Dewch i gyd, newidiwch gêr,
Dewch, bawb, dewch heibio i Aber
Yn dorf fwyn i'r dref annwyl,
Dewch o bell i gastell gŵyl.

Eurig Salisbury